**CYMDEITHAS**
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**COMMUNITY COUNCIL**

**01.02.24**
**7:00 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Stafell Gyfarfod Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** JOJ (Cadeirydd) DAW ; JAJ; TAJ;EY;RY;AR;LLMH;RJ IW; EO; GW<br>**Ymddiheuriadau:** DP; LLA<br>Myny**chu:** SWR |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd GW a DAW ddiddordeb mewn Eitem 6 Materion Cyllidol a Thaliadau |
| **3** | **Cofnodion 04.12.23** Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 11.01.24 fel rhai cywir (JAJ/LLMH) yn unol a'r cywiriadau canlynol:-<br>• Bil trydan y Caffi *i ddarllen* £335.63 nid £375.22<br>• Bwlch ariannol cyllideb CSYM *i ddarllen* £14m nid £1.4m<br><br>**Materion yn Codi**<br><br>• **Cwmni Cymuedol –** cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer nos Iau 8.2.24 6pm gyda swyddogion Menter Môn – croeso i bawb.<br>• **Cynllun Gweithredu Priffyrdd CSYM –** nododd y Clerc nad oedd wedi derbyn diweddariad er gyfer cyfarfod heno. Cytunwyd i ychwanegu parcio ar y pafin yn Ffordd Caergybi (JAJ i anfon lluniau fel tystiolaeth) ac anfon at Garry Leadbitter / Alan Jones |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | • **Adborth Grant Cae Astro –** trefnwyd cyfarfod ar gyfer 22.1.24 ond ni ddaeth swyddog FAW. Cyfarfod wediei aildrefnu bellach ar gyfer 14.2.24.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn – 01.02.24 |
| 5 | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**Cydnabod gwaith gwirfoddol –** cytunwyd yn unfrydol i anfon llythyr at Mr Tom Bown i'w longyfarch ar ei waith yn mesur glawiad yn ddyddiol ers dros 75 o flynyddoedd. Mae'r gwaith gwirfoddol hwn wedi ei gydnabod gan Swyddfa Dwywdd Prydain Fawr yn allweddol ar gyfer cofnodi llif barhaus o ddata tywydd – camp anhygoel heb os.<br><br>**Rhaglen Balchder Bro** – trafodwyd y ffynhonell gyllidol hwn. Cytunwyd i cyflwyno cais am arian i archebu cafn blodau i'w osod yng Nghae Gofeb er cof am ferched Byddin y Tir (Land's Army). Clerc i weithredu o fewn y terfyn amser sef 18.2.24.<br><br>**Difrod i'r tren yn yr Ardd Gymunedol –** cytunodd GW i adolygu'r sefyllfa a gweithredu fel bo orau. Nodwyd hefyd bod y llifolau ger y cae Astrio angen ei drwshio – GW i weithredu trwshio'r bocs a Clerc i gysylltu a HJT Trydanwr i drwshio'r golau. |
| 6 | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Ionawr –** **£**<br>Unllais Cymru – hyfforddiant DAW/Clerc £35x2 70.00<br>Scottish Power – trydan Uned 1 78.90<br>Cyflog Clerc – Ionawr 450.08<br><br>**Biliau cyfredol:** **£**<br>Amazon – archebu teledu/bachau gosod i'r Stafell Gyfarfod (ad-daliad i'r Clerc) 311.15<br>Dragon Fire - archwiliad uwch cyfarpar diogelwch tân y Stesion 442.50<br>Williams Bros – gosod pren dros dro ar ffenest wedi torri yn y Stesion; creu drws tân newydd yn y Stesion – nwyddau a llafur 685.57<br><br>**Sefyllfa gyfredol**<br>Cyfrif Cyfredol: £ 7105.88<br>Cyfrif Cadw: £ 8497.35<br><br>Nodwyd bod manylion polisi yswiriant i law ond ddim yn cynnwys Glan Menai – Clerc i wirio eto. |
| 7 | **Materion Cynllunio** |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Cadarnhau cais cynllunio Pandy Llannerchymedd – hwn wedi ei ôl – gymeradwyo. |
| 8. | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –**<br>Adroddodd LLMH ar y sefyllfa gyllidol gyfredol ddyrys o fewn y Cyngor Sir ac ar yr ymdrechion i gydbwyso'r gyllideb gydag effaith lleiaf ar y gwasanaethau i'r cyhoedd. |
| 9 | **Materion Safleoedd**<br>**Unedau Tan y Foel -** cytunwyd i godi'r mater hwn yn y cyfarfod gyda Menter Môn<br>**Safle'r Stesion –** Clerc i holi'r tenant am ail-osod lluniau yn y Caffi.<br>**Lawnt Fowlio –** cytunwyd i'r Clerc gostio taliadau ers 2014 a chyflwyno'r manylion i gyn swyddogion y Clwb Bowlio gan holi am eu penderfyniad gyda gwaddol eu cyllideb.<br>**Clwb Peldroed –** nododd y Clerc bod Cai ab Arfon yn llunio cais cynllunio ar gyfer gosod cynhwysydd ar y safle i gadw cyfarfpar y tim plant. Clerc i weithredu gyda Cai.<br>**Cae Gofeb –** dim i law<br>**Mynwentydd** – cytunodd GW i edrych ar giat Mynwent Peniel a thrwsio fel bo'r angen. Yn dilyn trwshio y tap gan RPO Williams, cytunwyd i'r Clerc anfon llythyr o ddiolch at berchennog Capel Peniel am hwyluso'r mynediad a chaniatau cyflenwad dwr i'r dyfodol. Cytunwyd i anfon siec o £20 gyda'r llythyr yn gynabyddiaeth ariannol. |
| 10. | **Gohebiaeth**<br>Cydnabuwyd derbyn yr ohebiaeth fel â nodwyd uchod ac ar y Rhaglen – dim sylwadau pellach. |
| | *Daeth y cyfarfod i ben am 20.30* |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com